



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Newidiadau staff ar gyfer mis Medi - mae **Cathryn James**, Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol wedi derbyn swydd fel Athrawes Ymgynghorol ADY gyda'r Awdurdod Addysg ym mis Medi. Hoffwn ddiolch iddi am ei gwaith a dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd - Mi fydd **Gareth James** yn parhau fel Dirprwy yn yr ysgol ond yn gweithredu fel Cydlynnydd ADY newydd ym mis Medi. Mae **Llŷr Evans**, athro Blwyddyn 6 a Phennaeth CA 2 wedi ei benodi fel Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol O.M. Edwards yn Llanuwchllyn, hoffwn ddiolch iddo am ei waith yn yr ysgol a dymuno'r gore iddo yn y dyfodol. Mi fydd **Hefina Ellis** y Brif Gogyddes ers 20 mlynedd, **Manon Teifi Rees** a **Cara Evans** (Cynorthwyr Dysgu) hefyd yn gorffen yn yr ysgol ar ddiwedd y tymor – diolch yn fawr iddynt am eu gwaith.

Penodiadau newydd - Mae'r ysgol wedi penodi dau aelod newydd o staff – **Jac Wyn** fydd yn dysgu ym Mlwyddyn 6 gyda **Ffion Ellis** fydd yn symud o flwyddyn 5 i Flwyddyn 6 ym mis Medi. Penodwyd **Ffion Ellis** hefyd yn Bennaeth CA 2. Rydym wedi penodi **Heledd Hughes** i ddysgu ym Mlwyddyn 5 gyda **Siôn Griffiths** - rhagor o fanylion i ddilyn cyn diwedd y tymor.

Cefnogi a Chyfoethogi - Mae'r ysgol wedi penodi **Lleucu Haf** i swydd cefnogi a chyfoethogi disgyblion ar gyfer y flwyddyn addysgol newydd - mi fydd y rôl newydd yn canolbwyntio ar unigolion / grwpiau sydd angen cymorth ychwanegol gyda sgiliau sylfaenol ar draws yr ysgol. Mi fydd hi hefyd yn cyflwyno agweddau o'r cwricwlwm newydd yng Nghyfnod Allweddol 2 - mae gan Lleucu Haf brofiad o ddysgu ieithoedd modern felly rydym am fanteisio ar hyn er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Côr Ceredigion Bl 5 a 6 – cofiwch fod yr ymarfer nesaf ar fore dydd Llun, Gorffennaf 11eg – mi fydd y bws yn gadael tua 9.15 ac yn dychwelyd erbyn 12.45 - cofiwch fod angen bocsbwyd.

Adroddiadau Cofnod Cynnydd – mi fydd yr adroddiadau yn cael eu dosbarthu heddiw. Os oes gennych unrhyw faterion sydd angen trafodaeth bellach neu rywbeth sydd yn aneglur yna gofynnir yn garedig i chwi e bostio'r athrawon i drefnu apwyntiad. Gan fod Bl 6 yn pontio yn yr uwchradd mi fyddwn yn dosbarthu adroddiadau Blwyddyn 6 ddydd Llun.

Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion - dydd Mawrth, Awst 2il - mae'r ysgol wedi derbyn gwahoddiad i berfformio ychydig o eitemau am 11 o'r gloch ym Mhentref Ceredigion ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Mi fydd tua 50 o ddisgyblion hŷn yr ysgol ar y maes ar y dydd Mawrth ar gyfer perfformio yn seremoni Gwobr Goffa Daniel Owen am 3 o'r gloch. Y bwriad yw cael cymaint â phosib o ddisgyblion yr ysgol o'r Meithrin i Flwyddyn 6 i ymuno gyda nhw i ganu nifer o ganeuon ysgafn megis Aderyn melyn, Blaenau Ffestiniog, Mam wnaeth got i mi, Bing bong a Dewch am dro i Aberystwyth. Mi fyddwn yn ymarfer y caneuon yn ystod yr wythnos nesaf ac yn rhannu recordiad gyda chi ar wefan yr ysgol (fel bod modd i ddisgyblion ymarfer ychydig yn ystod y gwyliau). Gweithgaredd anffurfiol a hwyliog yw'r bwriad gan fod mor gynhwysol â phosib i bob plentyn. Os ydych yn bwriadu treulio diwrnod yn yr Eisteddfod yna ceisiwch gyrraedd Pentre Ceredigion erbyn 10.50 ar y dydd Mawrth er mwyn gweld eich ffrindiau ac i gael ychydig o hwyl wrth gyd-ganu.

Diwrnod pontio i ddsbarth mis Medi - mi fydd pob plentyn yn cael cyfle i brofi cyfnod yn y dosbarth newydd cyn diwedd y tymor er mwyn ymglyfarwyddo gyda'r amgylchedd newydd a chwrdd â'r staff fydd yn eu dysgu ym mis Medi. Mi fydd y mwyafrif o'r dosbarthiadau yn gwneud hyn ddydd Llun, Gorffennaf 11eg gydag ambell ddsbarth (Bl 4 J yn mynd i Fl 5 ar y dydd Mercher) Mi fydd pob plentyn yn mynd i'w ddsbarth arferol ar ddechrau'r dydd.

Barbeciw / noson gymdeithasol – gobeithio bydd modd i chi gefnogi'r Barbeciw ar nos Iau, Gorffennaf 14eg – cofiwch archebu eich tocynnau ymlaen llaw. Mi fydd y noson yn cychwyn am 6 o'r gloch.

Llun ysgol gyfan – os ydych yn dymuno archebu llun ysgol gyfan yna dilynwch y ddolen isod. Mi fydd y lluniau yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol ac fe wnawn ni eu dosbarthu ym mis Medi. Fodd bynnag mae modd i chi dalu £5.00 yn ychwanegol er mwyn derbyn y lluniau i'ch cyfeiriad cartref yn gynt.

Class Gallery: <https://htmp.st/YsgolGymraeg-WSG>

Clwb Ar Ôl Ysgol Camau Mawr – Rwy'n ymwybodol bod y ddarpariaeth gofal plant a ddarperir gan Camau Bach yn Ysgol Gymraeg (Camau Mawr) wedi hysbysu rhieni ei bod yn debygol iawn na fyddant yn rhedeg ym mis Medi. Mae hyn oherwydd heriau wrth recriwtio staff. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw un sydd â diddordeb mewn gweithio o 3.30 tan tua 5.30 yna cysylltwch â Catrin neu Becca yn Camau Bach neu'r ysgol cyn gynted â phosib. Rwy'n ymwybodol pa mor bwysig yw'r cyfleuster hwn i rieni/gwarcheidwaid.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams

Pennaeth, 8.7.2022



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Staff changes for the month of September - Cathryn James, the school's Additional Learning Needs Co-ordinator has accepted a post as a ALN Consultant Teacher with the Education Authority in September. I would like to thank her for her work and wish her well in her new position - **Gareth James** will continue as Deputy in the school but will act as the new ALN Coordinator in September. **Llŷr Evans**, Year 6 teacher and Head of KS 2 has been appointed as Assistant Head at Ysgol O.M. Edwards in Llanuwchllyn, I would like to thank him for his work at the school and wish him the best in the future. **Hefina Ellis** the Head Cook for 20 years, **Manon Teifi Rees** and **Cara Evans** (Teaching Assistants) will also be leaving at the end of this term. I would like to thank them for their contribution to the school.

New appointments - The school has appointed two new members of staff - **Jac Wyn** will teach in Year 6 with **Ffion Ellis** who will move from year 5 to Year 6 in September. **Ffion Ellis** was also appointed Head of KS 2. We have appointed **Heledd Hughes** to teach in Year 5 with **Siôn Griffiths** - more details to follow before the end of the term.

Support and Enrichment - The school has appointed **Lleucu Haf** to the position of supporting and enriching pupils for the new educational year - the new role will focus on individuals / groups who need additional support with basic skills across the school. She will also present aspects of the new curriculum in Key Stage 2 - **Lleucu Haf** has experience of teaching modern languages, so we want to take advantage of this in order to enrich the pupils' experiences.

Ceredigion Choir Yr 5 and 6 – please remember that the next rehearsal is on Monday morning, July 11th - the bus will leave at around 9.15 and return by 12.45 - remember that you need a lunch box.

Progress Reports - the reports will be distributed today. If you have any issues that require further discussion or something that isn't clear, then please send an email to the teachers to arrange an appointment. As Year 6 have their transition days this week they will receive their reports on Monday.

Ceredigion National Eisteddfod - Tuesday, August 2nd - the school has received an invitation to perform a few items at 11 o'clock in Pentre Ceredigion (Ceredigion Village) on the National Eisteddfod field in Tregaron. Around 50 of the school's older pupils will be on the field on Tuesday to perform at the Daniel Owen Memorial Award ceremony at 3 o'clock. The intention is to get as many of the school's pupils as possible from Nursery to Year 6 to join them in singing a number of songs such as *Aderyn melyn*, *Blaenau Ffestiniog*, *Mam wnaeth got i mi*, *Bing bong* and *Dewch am dro i Aberystwyth*. We will rehearse the songs next week and share a recording with you on the school's website (so that pupils can practise a little during the holidays). This is intended to be an informal and fun activity with the aim of being as inclusive as possible for all children. If you plan to spend a day at the Eisteddfod in Tregaron then try to get to Pentre Ceredigion by 10.50 on the Tuesday in order to see your friends and have some fun singing.

Transition day to the September class - all children will have the opportunity to experience a period in their new class before the end of the term in order to familiarize themselves with the new environment and meet the staff who will teach them in September. The majority of the classes will do this on Monday, July 11th with a few classes (Year 4 J going to Year 5 on the Wednesday) All children will go to their usual class at the beginning of the day.

BBQ / social evening – I hope you will be able to support the BBQ on Thursday evening, July 14th. Please remember to order your tickets before hand. The evening will start at 6 o'clock.

Whole school photo - if you wish to order a whole school photo then follow the link below. The photos will be delivered to the school and we will distribute them in September. However, you can pay an additional £5.00 in order to receive the photos at your home address sooner. Class Gallery: <https://htmp.st/YsgolGymraeg-WSG>

Camau Mawr After School Club – I am aware that the child care provision provided by Camau Bach at Ysgol Gymraeg (Camau Mawr) have informed parents that they will very likely not be running in September. This is due to challenges in recruiting staff. If you are aware of anyone who is interested in working from 3.30 to around 5.30 then please contact Catrin or Becca at Camau Bach or myself as soon as possible. I am aware how important this facility is for parents / guardians.

If you have any concerns regarding your child's welfare or education, then please contact me immediately.

R C Williams,

Headteacher, 8.7.2022